

## **Canllawiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Tir Mynediad dan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

Mewn ymateb i'r hyn a ddigwyddodd ar benwythnos y 21 a 22 Mawrth, lle welwyd nifer fawr o bobl yn ymgynnull ar lwybrau poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth newydd i leihau'r risg o ledaenu'r feirws Covid19. Galluogodd y ddeddfwriaeth hon gau llwybrau penodol ac ardaloedd o dir mynediad agored ar frys gan Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Gosododd **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020** ddyletswydd amynt i gau rhai llwybrau tramwy neu dir mynediad yr oeddent yn eu hystyried yn debygol o ddenu nifer fawr o bobl ac o ganlyniad rhwystro pellhau cymdeithasol effeithiol. Roedd y dyletswyddau hefyd yn ymestyn i adolygu'r caeadau hyn a'u diwygio yn ôl yr angen.

Er hynny, mae ymarfer corff yn parhau i fod yn bwysig er lles ffisegol a meddyliol pobl, felly nid yw Llywodraeth Cymru'n dymuno peidio ag annog pobl rhag gadael eu cartrefi i gael ymarfer corff unwaith y dydd. Mae'r caeadau cyfyngedig hyn felly wedi'u targedu i osgoi gordyrru mewn mannau penodol yn unig, a dylid osgoi caeadau ar led y rhwydwaith llwybrau tramwy.

Yn dilyn y cyfyngiadau symud mae tirfeddianwyr mynegi pryder am ddefnydd mwy helaeth llwybrau tramwy ar eu tir, cynnydd yn y nifer o gŵn, a'r risg ganfyddadwy o ddod i gysylltiad â Covid19 i breswylwyr a gweithwyr fferm, yn arbennig lle mae aelodau'r teulu naill ai'n fregus a/neu'n hunan-ynysu.

I gynorthwyo i ddod i'r afael â hyn rydym wedi cyhoeddi canllaw: <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cadwn-heini-cadwn-iach-cadwn-lleol> ac wedi cynyddu negeseua yn ymwneud â hamdden gyfrifol, e.e. mae'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Hannah Blythyn AC wedi cyhoeddi datganiad yn apelio ar bobl i fod yn gyfrifol wrth ymarfer corff yng nghefn gwlad ac yn atgoffa perchnogion cŵn o'r angen i gadw cŵn ar dennyn yn agos at dda byw.

Ystyrir bod y risg o bobl yn pasio'r coronafeirws at bobl eraill wrth ddefnyddio llwybrau tramwy cyhoeddus yn isel iawn cyn belled bod pobl yn dilyn cyfarwyddiadau'r Llywodraeth i gynnal pellhau cymdeithasol a dilyn cyngor o ran hylendid.

Nid oes gan dirfeddianwyr yr hawl gyfreithiol i rwystro neu atal hawliau tramwy cyhoeddus na thir mynediad. Er hynny, mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn lle mae nifer fawr o bobl yn defnyddio'r fath llwybrau neu lle mae preswylwyr yn fregus neu'n hunan-ynysu, gall dirfeddianwyr ystyried y mesurau canlynol:

- codi hysbysiad cwrtais dros dro yn annog defnyddwyr i barchu preswylwyr a gweithwyr lleol drwy ddilyn canllawiau pellhau cymdeithasol ac ystyried defnyddio llwybrau amgen nad ydynt yn pasio drwy gerddi neu fuarthau.

- Noder: cais cwrtais yw hyn yn unig, ac nid oes gan dirfeddianwyr pŵer dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW) na'r Ddeddf Priffyrdd 1980 i gau na rhwystro hawl dramwy gyhoeddus na defnydd tir mynediad
- cynnig llwybr amgen o gwmpas gerddi a buarthau dim ond lle mae'n ddiogel i wneud hynny (mae'n rhaid ichi dderbyn caniatâd gan y tîrfeddiannwr perthnasol a sicrhau fod y llwybr yn ddiogel i ddefnyddwyr a da byw) cyn belled bod yr hawl tramwy gwreiddiol yn cael ei chynnal.

Pwyntiau allweddol i'w Nodi dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'r Ddeddf Priffyrdd 1980

- Dan Adran 137 y Ddeddf Priffyrdd 1980 ac Adran 14 y CROW mae'n drosedd i rwystro teithio rhydd ar hyd hawl dramwy gyhoeddus neu Dir Mynediad.
- Mae'n drosedd dan Adran 57 y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i godi hysbysiad sydd yn cynnwys "unrhyw ddatganiad anwir neu gamarweiniol sydd yn debygol o atal y cyhoedd rhag defnyddio" hawl tramwy.
- Mae hefyd yn drosedd dan Adran 14 CROW i ddangos arwydd sydd yn atal y cyhoedd rhag ymarfer eu hawl i ddefnyddio'r tir mynediad hwnnw
- Mae'n drosedd dan Adran 132 y Ddeddf Priffyrdd 1980 i ddangos ar arwyneb unrhyw hawl tramwy neu ar unrhyw goeden neu adeiledd o fewn yr hawl dramwy gyhoeddus unrhyw arwydd neu farc heb awdurdod.
- Gall dirfeddianwyr fod yn atebol am niwed personol dan Adran 2 y Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984 os ydynt yn anystyriol neu'n fwriadol yn creu risg – er enghraifft drwy ddefnyddio llwybr amgen sydd yn beryglus.

Golyga hyn:

- Os bydd tîrfeddiannwr yn cynnig llwybr amgen mae'n rhaid iddynt sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio a bod yr hawl tramwy neu'r defnydd o dir mynediad presennol yn cael ei gynnal fel bod gan ddefnyddwyr sydd â gallu gwahanol ddewis.
- Rhaid nad yw hysbysiad yn awgrymu fod yna unrhyw amheuaeth am ddefnydd yr hawl tramwy neu ddefnydd tir mynediad presennol.

Rhaid codi'r mesurau dros dro hyn cyn gynted y bydd y mesurau pellhau cymdeithasol wedi'u hymlacio.